Pwysigrwydd Ystyried Rhyw (*Gender*)

Lisa Lau

Mae merched ledled y byd yn wynebu gwahanol broblemau: diffyg mynediad at ddulliau atal cenhedlu yn Brasil Gatholig a'r frwydr barhaus dros hawliau sifil ymysg bobl ddu yn UDA

Er bod y cwrs Lefel A yn caniatáu rhywfaint o drafodaeth am ferched, ychydig o le sydd i her sylfaenol daearyddiaeth rhyw. Dadl yr erthygl hon yw bod anwybyddu rhyw yn gamgymeriad sy'n arwain at ragfarnau.

Mae daearyddwyr newydd yn aml yn drysu pan fo gofyn iddynt ddelio gydag astudiaethau rhyw mewn daearyddiaeth ddynol, gymdeithasol a diwylliannol. Ymysg y cwestiynau sy'n codi mae 'Pam astudio rhyw?' ac 'A yw rhyw yn berthnasol o gwbl mewn daearyddiaeth?' Pam ddylai daearyddiaeth fel pwnc roi unrhyw sylw i faterion rhyw, a pham ddylid cynnwys daearyddiaeth ffeministaidd o gwbl?

I gychwyn, mae'n bwysig deall nad ffaith naturiol neu fiolegol yw swyddogaethau'r rhywiau; ond yn hytrach **creadigaeth gymdeithasol** (canlyniad gweithgareddau cymdeithas). Mater biolegol yw bod yn wrywaidd neu fenywaidd, ond mae dod yn ddyn neu ferch (*being gendered*), yn hunaniaeth a ffurfiwyd gan gymdeithas. Mae swyddogaethau'r rhywiau yn cael eu dysgu ar oedran ifanc iawn, fel ymddygiad gwrywaidd a benywaidd, drwy gysylltiadau ac arferion dyddiol. Disgwyliadau ac arferion cymdeithas sy'n dylanwadu arnynt, eu cynhyrchu, eu hatgynhyrchu a'u cyflyru.

Fel daearyddwyr gallwn weld bod hyn yn effeithio ar fwy na phobl yn unig – gall rhyw fod yn berthnasol i ofod a lleoedd. Felly hefyd ddisgyblaeth daearyddiaeth ei hun.

Rhyw mewn daearyddiaeth

Ers yr 1970au, ac yn arbennig yn ystod yr 1980au a'r 1990au, heriwyd daearyddiaeth ar sail anghydraddoldeb rhyw mewn trafodaethau daearyddiaeth, a'r ffordd y mae daearyddiaeth fel pwnc wedi'i drefnu o ran rhyw yn ei hanfod.

Yn draddodiadol, byd dynion oedd daearyddiaeth. Yn y gorffennol, nid oedd ystyriaeth ddifrifol i'r ffaith bod gan ddynion a merched brofiadau gwahanol o'r byd, ac nad y profiad gwrywaidd oedd yr un cyffredinol o reidrwydd. Pan ddaeth y cysyniad hwn yn gyffredin mewn daearyddiaeth, roedd rhywfaint o gonsensws bod angen

ystyried profiadau merched, ond nid oedd hyn yn golygu 'ychwanegu merched a chymysgu' yn unig. Roedd angen datblygu ac arfer dealltwriaeth llawer mwy soffistigedig am y rhywiau.

Mae'n bwysig cofio nad grŵp unffurf yw merched, yn rhannu'r un amgylchiadau, anghenion neu brofiadau. Er enghraifft, gall merch mewn gwlad ddatblygedig fod yn ymladd yn erbyn aflonyddu rhywiol yn y gweithle, tra bod merch mewn gwlad sy'n datblygu yn ymladd am hawl i sicrhau bod gan ei phlentyn ddŵr glân i'w yfed. Mae ffeministiaid hefyd yn pwysleisio y gall safbwynt merched o ran dynion wahaniaethu yn ôl cyd-destun. Er enghraifft, efallai bod brwydr merched du yn erbyn rhywiaeth yn frwydr yn erbyn dynion du, ond byddant yn uno gyda dynion du i frwydro yn erbyn hiliaeth, gan eu bod yn cael eu gormesu ar sail rhyw a hil. Felly ni ddylid astudio materion rhyw ar eu pennau eu hunain. Mae angen eu gosod mewn cyd-destun, o ran amser a lleoliad.

Daearyddiaeth ffeministaidd

Gall y termau 'daearyddiaeth ffeministaidd' a hyd yn oed 'ffeministiaeth' fod yn gamarweiniol. Nid ydynt yn golygu safbwynt radical o gasáu dynion. Mae ffeministiaeth yn ymwneud â pherthnasedd rhyw yng nghylchoedd bywyd, ond hefyd gyda'r ffordd y mae grym yn dylanwadu ar gysylltiad pobl gyda'i gilydd. Mae methodoleg ffeministaidd mewn daearyddiaeth yn ymwneud â chynllunio dulliau ymchwil (gan gynnwys casglu data, gwaith maes, dadansoddiad a dosbarthu canlyniadau), cynnal ymchwil mewn ffordd foesegol, y berthynas (grym) rhwng yr ymchwilydd a thestun yr ymchwil, a'r broses lle mae'r ymchwil yn trawsnewid i fod yn 'wybodaeth'.

Nid yw **cynhyrchu gwybodaeth** – y broses o gytuno ar rywbeth fel gwybodaeth – yn broses niwtral. Ers amser hir bu dynion yn penderfynu beth sy'n cyfrif fel gwybodaeth, ac felly mae rhyw yn dylanwadu ar wybodaeth. Mae hyn yn wir mewn daearyddiaeth yn ogystal â phynciau eraill.

Roedd Gillian Rose, a gyhoeddodd ei llyfr dylanwadol *Feminism and Geography* yn 1993, yn beirniadu daearyddiaeth ddynol am ei wrywdod traddodiadol. Dynion fu'n rheoli'r system o gynhyrchu gwybodaeth yn draddodiadol, a chyn belled â bod gwybodaeth yn gyson gyda phrofiadau gwrywaidd, roedd yn cael ei ddilysu.

Mae daearyddwyr (ac academyddion eraill) ers amser wedi mwynhau safbwynt y gwyliwr datgysylltiedig, yr ymchwilydd yn edrych i lawr ar y byd. Gelwid hyn yn 'godtrick' – y syniad o academydd sydd yn ymddangos ei fod ym mhobman (hollbresennol) ac yn unman. Dadl daearyddiaeth ffeministaidd yw bod safbwyntiau o'r fath yn beryglus gan eu bod yn gosod gwybodaeth wahanol (e.e. safbwynt merched neu wahanol i'r un gorllewinol) mewn sefyllfa israddol, neu'n awgrymu bod llai o werth iddynt.

Syniad allweddol y mae daearyddiaeth ffeministaidd yn ei bwysleisio yw pwysigrwydd **sefyllfa**. Yn syml iawn, dyma'r syniad bod sefyllfa rhywun, o ran rhyw, hil, dosbarth, rhywioldeb, cred grefyddol, oed, cenedl, cefndir, cyfoeth ac yn y blaen, yn effeithio ar safbwyntiau, barn a dealltwriaeth. Felly mae rheidrwydd ar ymchwilydd cydwybodol i ystyried ei sefyllfa ei hun, a chydnabod effaith y sefyllfa ar y broses o gynhyrchu gwybodaeth. Mae hyn yn dileu'r tueddiad i gyffredinoli – i gymryd yn ganiataol bod ein hagweddau, ein dealltwriaeth a'n profiadau ein hunain yn rhai cyffredinol.

Mythau rhyw

Mae saernïaeth gymdeithasol rhyw yn rymus, ac yn effeithio'n ymarferol ar fywydau bob dydd. Mae mythau am ryw a swyddogaethau'r rhywiau wedi bodoli ers amser, ac mae'n bwysig datgelu'r mythau hyn a'u heffeithiau llechwraidd.

Er enghraifft bu cynnydd sylweddol yn nifer y merched cyflogedig o fewn diwydiannau cynhyrchu allforion mewn gwledydd newydd eu diwydiannu. Cyflogir nifer anghyfartal o ferched mewn diwydiannau cynhyrchu ysgafn ond dwys (tecstilau, teganau, nwyddau electronig) oherwydd bod cwmnïau rhyngwladol yn ystyried llafur merched yn gymharol rad. Mae tri myth am lafur merched wedi effeithio ar fywydau miliynau o ferched a'u teuluoedd:

- nid oes angen i ferched ennill cymaint â dynion
- mae merched yn fwy crefftus ac felly mae llafur crefftus i'w ddisgwyl – mae'n cael ei gymryd yn ganiataol yn hytrach na'i wobrwyo
- mae merched yn weithwyr tawelach, a gellir eu hatal neu eu rhwystro rhag trefnu eu hunain yn wleidyddol neu ymuno ag undebau llafur.

Nid yw llafur merched yn ei hanfod yn rhatach nag un dynion. Mae'r mythau rhyw hyn, sy'n codi o saernïaeth gymdeithasol rhyw, wedi galluogi cyflogwyr i roi gwerth is ar lafur merched, cadw costau eu llafur yn isel, a chael mwy o elw.

Enghraifft arall o effaith ymarferol mythau rhyw yw'r myth o ddynion fel darparwyr, yn addas ar gyfer byd gwaith cyhoeddus, a merched fel gofalwyr, o fewn byd preifat, domestig y cartref. Mae merched wedi ymdrechu'n hir ac yn galed i ennill yr hawl i ymuno gyda'r byd gwaith cyhoeddus, ac i gael mynediad at gyflogau ac annibyniaeth ariannol. Serch hynny, mor ddiweddar â 2006, roedd cyfraddau diweithdra merched ledled y byd dipyn yn uwch na dynion (6.6% ar gyfer merched, 6.1% ar gyfer dynion), ac mae cyfanswm o 81.8 miliwn o ferched ledled y byd yn barod i weithio ond yn ddi-waith (Ffigur 1).

Heddiw mae merched yn y DU yn weledol iawn yn y gweithle, ac mae teuluoedd incwm dwbl yn gyffredin, ond byddai'n gamgymeriad rhagdybio bod pob anghydraddoldeb rhyw wedi diflannu yn y byd datblygedig. Hyd yn oed yn y DU, mae'r mythau rhyw yn bodoli, ac fe welwn hyn mewn dwy ffordd allweddol. Yn gyntaf, mae ymchwil yn dangos bod merched sy'n ennill cyflog yn parhau i wneud y mwyafswm o waith tŷ a gofal, ac yn ail, mae merched yn aml yn dod oddi ar yr ysgol gorfforaethol cyn taro'r 'to gwydr' (y lefel lle mae'n anarferol i ferched godi'n uwch).

Mae'r cam hunan-anfanteisiol hwn gan ferched yn digwydd oherwydd bod amodau gwaith ar lefelau uchaf y byd corfforaethol yn anhyblyg, ac felly'n anaddas ar gyfer

Ffatri nwyddau electronig yn Shanghai: mae cwmnïau rhyngwladol yn gweld merched fel llafur rhad

merched sy'n gofalu am blant, pobl hŷn a'r methedig, ac yn cynnal cartref. Er bod merched wedi cymryd camau mawr i mewn i'r byd cyhoeddus, y myth rhyw parhaus yma yw bod y gwaith oddi mewn i fyd preifat y cartref yn parhau i fod yn gyfrifoldeb iddynt hefyd. Rhaid i ferched gyflawni gwaith gofal a chartref yn ogystal â'u gwaith cyflogedig, ac mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl i nifer gyflawni eu potensial yn eu gyrfaoedd.

Casgliad

Fel y dengys yr enghreifftiau uchod, mae mythau rhyw wedi cadw merched mewn sefyllfa dan anfantais. Mae astudiaethau rhyw yn hanfodol gan fod ein hagweddau tuag at syniadau cymdeithasol o swyddogaethau'r rhywiau yn cael eu gwireddu'n ymarferol. Mae gan hyn effaith pellgyrhaeddol.

Mae astudiaethau rhyw a daearyddiaeth ffeministaidd wedi cael eu prif ffrydio'n gynyddol mewn daearyddiaeth, gan chwalu mythau rhyw, herio rhagdybiaethau dan yr wyneb, a chyfrannu'n sylweddol i'r ddisgyblaeth gyfan. Yng ngeiriau un daearyddwr, 'Mae rhyw yn gategori cydnabyddedig mewn daearyddiaeth ddynol, i'r graddau bod ei eithrio o ddadansoddiad, yn gynyddol gael ei ystyried yn esgeulus.'

*Mae **Lisa Lau** yn ddarlithydd cyd-ddisgyblaethol yn yr adrannau daearyddiaeth a chymdeithaseg ym Mhrifysgol Keele. Ymysg ei meysydd ymchwil mae ôl-wladychiaeth, de Asia, astudiaethau llenyddol ac astudiaethau rhyw.*

Ffigur 1
Cyfraddau diweithdra byd-eang a rhanbarthol fesul rhyw, 2006



Ffynhonnell: ILO

Cwestiynau ar gyfer trafodaeth bellach

(1) Pa fythau rhyw ydych chi yn eu credu?

(2) Sut a phryd mae'r mythau rhyw hyn yn dod i'r amlwg o ran creu swyddogaethau a hunaniaeth rhyw?

(3) Ystyriwch y ffordd y mae cynrychiolaeth yn y cyfryngau, mewn cymdeithas ac mewn sefydliadau (e.e. ysgolion, eglwysi) yn atgyfnerthu mythau am swyddogaethau rhyw a safle merched.

(4) Pam fod daearyddiaeth ffeministaidd yn bwysig i ddisgyblaeth daearyddiaeth yn gyffredinol?

Pwyntiau allweddol

- Mae swyddogaethau rhyw yn saernïaeth gymdeithasol; nid yn ffaith fiolegol.
- Mae rhyw yn medru bod yn berthnasol i wybodaeth, gofod a disgyblaeth.
- Mae daearyddiaeth ffeministaidd yn herio gwrywdod cynhyrchu gwybodaeth.
- Mae rhagdybiaethau rhyw yn effeithio'n sylweddol ar wleidyddiaeth, rheolaeth, disgwyliadau, agweddau a gweithredoedd.